

Canolfan Mileniwm Cymru

Adroddiad ar y Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau – 2018



Pwy yw Canolfan Mileniwm Cymru?

Canolfan gelfyddydol genedlaethol yw Canolfan Mileniwm Cymru sydd wedi'i lleoli yng nghanol Bae Caerdydd. Rydyn ni wedi croesawu dros 16.5 miliwn o bobl drwy'r drysau ers i ni agor yn 2004, ac rydyn ni'n dal i fod ymhlith atyniadau ymwelwyr mwyaf poblogaidd Cymru. Mae'r Ganolfan hefyd yn gartref i wyth cwmni preswyl arall rydyn ni'n cydweithio â nhw ac yn eu cefnogi. Ein cenhadaeth yw creu canolbwynt ar gyfer diwylliant, hunaniaeth a doniau Cymru.

Gweledigaeth ac Amcanion

Gweledigaeth y Ganolfan yw *Creu Ysbrydoliaeth i Gymru, Creu Argraff ar y Byd* drwy greu profiadau ysbrydoledig sy'n newid bywydau ac yn ehangu gorwelion.

Yn y blynyddoedd a ddaw, bydd y Ganolfan yn anelu:

- i godi dyheadau holl bobl ifanc Cymru
- i fod yn hygyrch i bawb
- i gael ei dathlu fel un o ganolfannau celfyddydau perfformio blaenllaw'r byd
- i greu gwaith arloesol sy'n arddangos Cymru i'r byd

Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yng Nghanolfan Mileniwm Cymru

Mae ymrwymiad y Ganolfan i Gydraddoldeb ac Amrywiaeth yn ganolog i'n gweledigaeth a'n hamcanion. Rydyn ni'n credu mewn bod yn sefydliad cynhwysol ac amrywiol lle mae ein staff a'n cwsmeriaid yn teimlo bod croeso iddyn nhw a lle mae'r amgylchedd gwaith a'r gwasanaethau rydyn ni'n eu cynnig wir yn adlewyrchu amrywiaeth y bobl a'r cymunedau rydyn ni'n ymwneud â nhw. Er mwyn sicrhau llwyddiant, rydyn ni'n sylweddoli bod rhaid i ni fod yn rhagweithiol o ran cael gwared ar y rhwystrau a allai wynebu rhai pobl wrth ddefnyddio ein gwasanaethau, gan gynnwys wrth geisio cael gwaith. Rydyn ni'n mynd ati'n barhaus felly i sicrhau bod ein harferion nid yn unig yn cydymffurfio, ond yn rhagweithiol wrth weithio yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010.

Taliadau Bonws

Fel rhan o'r dyletswyddau adrodd statudol, mae'n ofynnol i gyflogwyr gyhoeddi'r bwllch rhwng y rhywiau sydd wedi'i darganfod o fewn ei daliadau bonws.

Noder: ni thalwyd bonws i neb yng Nghanolfan Mileniwm Cymru yn ystod 17/18, ac felly fyddwn ni ddim yn gallu adrodd ar y gofyniad hwn.

Esbonio'r Bwllch Cyflog rhwng y Rhywiau...

Rydyn ni'n rhoi gwerth ar amrywiaeth ein gweithwyr, ac rydyn ni'n ymrwymedig i'r gwaith o greu amgylchedd gwaith sy'n gynhwysol o bawb. Rydyn ni'n hyderus bod dynion a merched yn cael eu talu'n gydradd am wneud swyddi cydradd ledled y Ganolfan.

Mae ein dadansoddiad bod 16% o Fwllch Cyflog Rhwng y Rhywiau (yn seiliedig ar wybodaeth ciplun ar 5 Ebrill 2017) yn cael ei yrru i raddau helaeth gan y canlynol:

- Mae 29% yn fwy o ferched na dynion yn cael eu cyflogi yn y Ganolfan
- Mae mwy o ferched mewn swyddi lefel is
- Mae ychydig yn fwy o ddynion mewn uchel swyddi

Mae'r canfyddiadau yma'n dangos bod rhaid i ni ganolbwyntio ein hymdrechion a dod i ddeall yn fwy pendant pam fod rhagor o ferched yn gweithio mewn swyddi lefel is yn y sefydliad, yn ogystal â dod i ddeall sut y gallwn gynyddu nifer y merched mewn swyddi lefel uwch.

Ein Hymrwymiad

Byddwn yn parhau i adolygu ein polisiau a'n harferion yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn deg, ac mae hyn yn cynnwys mynd ati i adolygu penderfyniadau ynghylch cyflog.

Mae ein hymrwymiad yn ystod y deuddeg mis nesaf hefyd yn cynnwys:

- **Cynnal gwaith dadansoddi pellach ar gyfer adrodd**
Dyma'r flwyddyn gyntaf rydyn ni wedi adrodd ar y bwllch cyflog rhwng y rhywiau. Cyn ein hadroddiad nesaf, byddwn yn mynd ati i ymchwilio i'r bwllch cyflog gan ystyried pa fesurau y gellir eu cymryd er mwyn lleihau maint y bwllch lle gallwn.
- **Parhau i adolygu a gweithredu mentrau sy'n cefnogi Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant**
Ar y cyd â'n Hyrwyddwyr Amrywiaeth, byddwn yn parhau i weithredu ein Cynlluniau Cydraddoldeb ac Amrywiaeth a'n Strategaeth Pobl ddiwygiedig ar gyfer 2018 er mwyn hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ymhellach yn y Ganolfan.

- **Mynd ati i annog gweithio hyblyg**

Dangosodd arolwg o'n gweithwyr yn 2017 fod ein staff yn gwerthfawrogi lefel yr hyblygrwydd sy'n cael ei gynnig iddynt. Byddwn felly yn parhau i annog ffyrdd hyblyg ac ystywyth o weithio er mwyn sicrhau ein bod yn diwallu anghenion ein gweithwyr o ran cydbwysedd rhwng gwaith a bywyd.

- **Adolygu prosesau recriwtio**

Rydyn ni eisiau i'n harferion fod yn hygyrch i bawb wrth iddynt geisio gwaith yn y Ganolfan. Byddwn felly yn adolygu ein prosesau a'n harferion recriwtio er mwyn cael gwared ar unrhyw rwystrau posib.



Mathew Milsom

Rheolwr Gyfarwyddwr